# Adroddiad Blynyddol

# Safonau'r Gymraeg

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

# 2021 – 2022

**Paratowyd yn unol â gofynion**

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**Ebrill 2022**

This document is also available in English.

**Cynnwys**

| | | |
|---|---|---|
| **1.0** | **Cyflwyniad** | **3** |
| **2.0** | **Cefndir / Cyd-destun yr Adroddiad** | **4** |
| **3.0** | **Crynodeb** | **5** |
| 3.1 | Cynnydd / Datblygiadau yn ystod y flwyddyn | 5 |
| 3.2 | Edrych i'r Dyfodol | 6 |
| **4.0** | **Gwybodaeth am y flwyddyn 2021-2022** | **7** |
| 4.1 | Datblygiadau Digidol | 7 |
| 4.2 | Grŵp Llywio'r Gymraeg | 7 |
| 4.3 | Datblygu Cysylltiadau gydag Ysgolion Cynradd y Sir | 7 |
| 4.4 | Dathlu Dydd Miwsig Cymru 2022 | 8 |
| 4.5 | Dathlu Diwrnod Shw Mae Su' Mae 2021 | 8 |
| 4.6 | Dathlu Dydd Gŵyl Dewi 2022 | 8 |
| 4.7 | Teclyn Sgiliau Iaith a Negeseuon E-bost | 8 |
| 4.8 | Logo Iaith Gwaith ar e-bost | 9 |
| 4.9 | Gwaith Cyfieithu | 9 |
| 4.10 | Cyfieithu ar y pryd | 9 |
| 4.11 | Fforwm Iaith | 10 |
| 4.12 | Gwersi Cymraeg | 10 |
| 4.13 | Cynllun Sgwrsio | 11 |
| 4.14 | Gwasanaethau'r Cyngor | 11 |
| 4.15 | Sgiliau Iaith Gymraeg Staff y Cyngor | 15 |
| 4.16 | Recriwtio - Swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn | 17 |
| 4.17 | Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd | 18 |
| **5.0.** | **Cadw Cofnodion** | **20** |
| 5.1 | Cwynion | 20 |
| **6.0** | **Casgliad** | **21** |

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw dangos i ba raddau mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2021-2022, a'r gwaith a wnaed i'w diwallu.

1.2 Er gwaethaf y ffaith ein bod yn gweithio o gartref am y flwyddyn ddiwethaf i gyd, rydym yn hynod falch o'r llu o ddatblygiadau a llwyddiannau a gyflawnwyd - cyflwynir rhagor o wybodaeth amdanynt yng nghrombil y ddogfen hon.

## 2.0 Cefndir / Cyd-destun yr Adroddiad

2.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, na fydd yn trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

2.2 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd ar y Cyngor, ymhlith sefydliadau eraill, i gydymffurfio â Safonau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi cael 167 o Safonau i gydymffurfio â nhw yn y meysydd a ganlyn – Cyflenwi Gwasanaethau, Gweithredu, Llunio Polisi, Hybu, Cadw Cofnodion. Mae'r Safonau i'w gweld ar ein gwefan.

2.3 Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai'r Cyngor drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg (gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd).

2.4 Pwrpas y Safonau yw:

- rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ar eu dyletswyddau am yr iaith Gymraeg
- rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y medrant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o wasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.

2.5 Mae Safonau'r Gymraeg yn disodli Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor a gymeradwywyd gyntaf gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 23 Gorffennaf 1997, ac a ddiwygiwyd ar 14 Mai 2004 ac yna ar 23 Ebrill 2009.

2.6 Er bod y Cyngor eisoes yn cydymffurfio â mwyafrif o Safonau'r Gymraeg fel rhan o'u Cynllun Iaith Gymraeg cynt, mae'r Safonau wedi darparu cyfle i atgyfnerthu'r gofynion i sicrhau cydymffurfiaeth.

2.7 Mae'r adroddiad monitro hwn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn erbyn camau gweithredu yn deillio o Safonau'r Gymraeg. Casglwyd y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad hwn o ganlyniad i'r monitro parhaus y mae'r Cyngor yn ei gynnal ar ei Wasanaethau.

### 2.8 Atebolrwydd

2.8.1 Rheolwr y Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu a'r Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg sy'n gyfrifol am ysgrifennu'r ddogfen hon. Yna, mae hi'n cael ei chyflwyno i aelodau'r Pwyllgor Craffu a Throsolwg Cyllid ac Adnoddau i graffu arni. Yn eu tro, os ydynt yn fodlon â'r cynnwys, maen nhw'n cymeradwyo'r adroddiad i'r Cabinet a fydd yn ei drafod yn eu cyfarfod nesaf nhw.

2.8.2 Ar ôl ei gymeradwyo, mae'r adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd yn swyddfeydd cyhoeddus y Cyngor (pan fyddant ar agor) ac ar ei wefan. Mae'r adroddiad hefyd yn cael ei gylchredeg i'r gwasanaethau unigol i gyd ac yn ogystal â hyn, cyhoeddir gwybodaeth am yr adroddiad monitro cyffredinol ynghyd â'r argymhellion ar y fewnrwyd a'i ddosbarthu drwy gyfrwng negeseuon ar y system negeseuon mewnol, yn y Newyddlen Staff. Bydd dolen gyswllt i'r ddogfen hon yn cael ei rhannu gyda staff derbynfeydd y Cyngor a byddwn yn rhoi gwybod wrth drigolion Conwy amdano.

## 3.0 Crynodeb

## 3.1 Cynnydd / Datblygiadau yn ystod y flwyddyn

3.1.1 Rydym yn falch o fedru adrodd ar nifer o ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn. Mae sawl ymgyrch wedi golygu fod cynnydd yn nifer y cyfleoedd sydd ar gael i staff ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg a'i gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd. Dyma grynodeb ohonynt:

**a)** **Polisi'r Gymraeg** – Yn ystod y flwyddyn, unwyd y ddau bolisi oedd gennym mewn perthynas â rhoi gwybod i staff am eu dyletswyddau o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (dyletswyddau mewnol ac allanol), oherwydd ein bod wedi sylwi bod cael dau bolisi tebyg yn ddryslyd i staff. Mae'r fersiwn ddiwygiedig hefyd yn darparu eglurder pellach o amgylch ambell bwynt wrth fynd ati i gydymffurfio â'r polisïau cyfredol. Bellach, mae rhif y safon berthnasol o Safonau'r Gymraeg wedi'i gynnwys yn y polisi er hwyluster ac er mwyn medru rhoi eglurder pellach i staff petai angen.

**b)** **Grŵp Llywio'r Gymraeg** – Yn ystod 2020, sefydlwyd grŵp newydd, Grŵp Llywio'r Gymraeg. Grŵp mewnol ydi'r grŵp, a'i fwriad penodol ydi ystyried a thrafod materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y Cyngor, boed yn faterion o arferion da i'w dathlu a'u datblygu, neu unrhyw fater sy'n codi sy'n is na'r safon rydym ni'n anelu ati, yn faterion lle mae angen gwelliant gyda gwasanaeth penodol / agwedd benodol o'n gwaith ac ati. Aeth y Grŵp o nerth i nerth yn ystod 2021-2022 a chafwyd sawl trafodaeth ddifyr yn cefnogi, ac yn herio, gwasanaethau'r Cyngor. Gwelwyd budd mawr o gynnal y grŵp. Bydd aelodaeth y grŵp yn newid ychydig yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai eleni gan nad yw rhai o'r Aelodau yn ail-sefyll felly edrychwn ymlaen at groesawu Aelodau newydd sydd â diddordeb ym maes y Gymraeg i fod yn rhan o'r Grŵp y flwyddyn nesaf.

**c)** **Datblygu Cysylltiadau gydag Ysgolion Cynradd y Sir** – Mae'r Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg yn parhau i gysylltu'n rheolaidd gyda'r holl ysgolion cynradd ac uwchradd o fewn y sir. Ceir gwybodaeth am ychydig o'r gwaith ym mhwynt 4.0 'Gwybodaeth am y flwyddyn 2021-2022.

**ch)** **Gwaith Cyfieithu** – Dros y bedair blynedd diwethaf, mae nifer y geiriau ydym ni wedi'u cyfieithu ar gyfer Cyngor Conwy wedi parhau i gynyddu'n sylweddol. Erbyn hyn, rydym yn cyflogi 26 cyfieithydd ac ar fin penodi rhagor o gyfieithwyr yn sgil cynnydd yng ngwaith y gwasanaeth. Ers mis Gorffennaf 2020, rydym wedi cyfieithu o gwmpas 1 miliwn o eiriau bob mis, ac erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, rydym bellach yn cyfieithu'n nes at 1.2 miliwn o eiriau bob mis. Ym mis Tachwedd, cyfieithom y swm mwyaf erioed o eiriau yn ein hanes sef dros 1.4 miliwn o eiriau, ar draws y 6 sefydliad yr ydym yn cyfieithu iddynt, sy'n swm cwbl syfrdanol o eiriau.

**d)** **Cyfieithu ar y pryd** – Parhaodd ein cyfarfodydd i gyd yn rhai rhithwir dros Zoom yn ystod 2021-2022 hefyd a bu modd i'r Cynghorwyr, y swyddogion a'r aelodau o'r cyhoedd fu'n bresennol ym mhob cyfarfod gyfrannu at y cyfarfod yn eu dewis iaith, boed hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg, fel sy'n arferol yn ein cyfarfodydd i gyd wrth gwrs. Rhagorodd 2021-2022 ar brysurdeb 2020-2021 a dyma fu ein blwyddyn brysuraf o ran cyfieithu ar y pryd erioed. Bu nifer fawr o Gynghorwyr nad ydynt yn rhugl yn Gymraeg/nad ydynt yn siarad Cymraeg yn pleidleisio yn Gymraeg drwy ddweud "O blaid" / "Yn erbyn" bob amser, sydd yn wych i'w glywed.

**dd) Gwersi Cymraeg** – Mae ein gwersi Cymraeg wedi parhau i fynd o nerth i nerth eleni, ac rydym yn ymfalchïo yn y ffaith bod 79 aelod o'n staff wedi gallu parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg a chyfrannu mewn ffordd fechan, ond pwysig iawn, tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**e) Cynllun Sgwrsio** – Ddechrau 2021, fe wnaethom lansio Cynllun Siarad yn y Gwaith lle mae dysgwr ar lefel Canolradd yn cael ei baru efo siaradwr Cymraeg rhugl er mwyn sgwrsio'n anffurfiol. Ar hyn o bryd mae gennym 12 pâr sy'n cyfarfod yn rheolaidd fel rhan o'r Cynllun Sgwrsio. Mae hi wedi bod yn braf iawn gweld y dysgwyr yn ffynnu yn ystod y flwyddyn wrth iddyn nhw ddod i ben eu lefel bresennol o wersi Cymraeg.

**f) Tudalen Facebook** – Ym mis Ionawr 2022 crëwyd tudalen Facebook newydd sbon o'r enw Cymraeg i Bawb – Conwy. Bwriad y dudalen ydi hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg o fewn y sir. Mae'r dudalen yn postio'n rheolaidd, ac yn rhannu cynnwys gwreiddiol yn ogystal â gwybodaeth gan fudiadau eraill megis Comisiynydd y Gymraeg, Menter Iaith, Yr Urdd a llawer mwy. Ceir gwybodaeth bellach am y dudalen newydd ym mhwynt 4.1 'Datblygiadau Digidol'.

## 3.2 Edrych i'r Dyfodol

3.2.1 Yn ystod y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu datblygu'r materion a ganlyn, ymysg llu o ddatblygiadau llai:

**a) Cyfieithu ar y pryd** – Edrychwn ymlaen i ddatblygu ein darpariaeth ymhellach ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf pan fydd ein cyfarfodydd cyhoeddus yn troi yn rhai hybrid sy'n golygu y bydd mynychwyr ein cyfarfodydd cyhoeddus yn medru bod yn y Siambr ym Modlondeb neu ar-lein yn ystod pob cyfarfod.

**b) Tudalen Facebook** – Ym mis Ionawr 2022 crëwyd tudalen Facebook newydd sbon o'r enw Cymraeg i Bawb – Conwy. Bwriad y dudalen ydi hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg o fewn y sir. Wrth edrych i'r dyfodol, mi fydd cynnwys newydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer y dudalen gan gynnwys Gair yr wythnos, Idiom y mis, Band y mis a llawer mwy.

**c) Gwersi Cymraeg** – Ym mis Mai, rydym yn bwriadu ychwanegu at ein darpariaeth bresennol drwy gynnig cyfleoedd i hyd yn oed fwy o staff y Cyngor ddysgu Cymraeg. Edrychwn ymlaen at weld eu llwyddiannau nhw y flwyddyn nesaf.

**ch) Cynllun Sgwrsio** – Y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu rhoi cynnig i fwy o ddysgwyr a 'recriwtio' fwy o siaradwyr Cymraeg i fod yn rhan o'r cynllun er mwyn rhoi'r cyfle i fwy o'n dysgwyr fanteisio ar y cyfle gwerth chweil a hynod lwyddiannus hwn.

**d) Gweithgareddau yn y Gymuned** – Yn ystod y flwyddyn nesaf, gyda rheolau Covid yn cael eu llacio, rydym yn gobeithio'n arw iawn y cawn fynd allan i'r cymunedau i gynnal gweithgareddau ac i weithio ymhellach â'r cyhoedd.

**dd) Gweithgareddau gydag ysgolion** – Byddwn hefyd, gobeithio, yn cael mynd i gynnal gweithgareddau codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg â'r manteision o'i siarad gyda gwahanol oedrannau o blant yn ein hysgolion cynradd ac uwchradd.

**e) Gwefan Addysg Gymraeg** – Yn ystod y flwyddyn byddwn yn datblygu gwefan addysg Gymraeg newydd sbon ar wefan canolog y sir. Bwriad y dudalen fydd darparu gwybodaeth i rieni/gwarcheidwaid am addysg Gymraeg a'r manteision o fod yn ddwyieithog. Mae cynnwys y dudalen wedi ei chreu ac rydym ar hyn o bryd yn gweithio efo tîm y we a thîm ymgynghorol y Gymraeg o adran Addysg y Cyngor er mwyn sicrhau bod y wefan ar waith dros y misoedd nesaf.

## 4.0 Gwybodaeth am y flwyddyn 2021-2022

### 4.1 Datblygiadau digidol

**4.1.1 Tudalen Facebook** – Ym mis Ionawr 2022 crëwyd tudalen Facebook newydd sbon o'r enw Cymraeg i Bawb – Conwy. Bwriad y dudalen ydi hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg o fewn y sir. Mae'r dudalen yn postio'n rheolaidd bob wythnos, ac yn rhannu cynnwys gwreiddiol yn ogystal â gwybodaeth gan fudiadau eraill megis Comisiynydd y Gymraeg, Menter Iaith, Yr Urdd a llawer mwy.

**4.1.2 Sianel Dysgu Cymraeg ar Teams** – Mae gan Cyngor Conwy sianel newydd ar Microsoft Teams o'r enw 'Dysgu Cymraeg'. Mae'r sianel ar gyfer staff y Cyngor sy'n mynychu gwersi Cymraeg mewnol y Cyngor. Caiff y dudalen ei reoli gan y tiwtor Cymraeg ond mae gan Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg hefyd fynediad at y sianel er mwyn rhannu gwybodaeth am y Gymraeg gyda'r dysgwyr, e.e Band y Mis.

### 4.2 Grŵp Llywio'r Gymraeg

4.2.1 Yn ystod 2020, sefydlwyd grŵp newydd, Grŵp Llywio'r Gymraeg. Grŵp mewnol ydi'r grŵp, a'i fwriad penodol ydi ystyried a thrafod materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y Cyngor, boed yn faterion o arferion da i'w dathlu a'u datblygu, neu unrhyw fater sy'n codi sy'n is na'r safon rydym ni'n anelu ati, yn faterion lle mae angen gwelliant gyda gwasanaeth penodol / agwedd benodol o'n gwaith ac ati.

4.2.2 Aeth y Grŵp o nerth i nerth yn ystod 2021-2022 a chafwyd sawl trafodaeth ddifyr yn cefnogi, ac yn herio, gwasanaethau'r Cyngor. Mae gan y grŵp raglen waith a chamau gweithredu sy'n deillio o'r grŵp, ac mae'n fodd o ddatblygu'r iaith Gymraeg yn fewnol yn y Cyngor, a chodi proffil yr iaith yn allanol yn ein cymunedau hefyd. Bu cyfieithydd ar y pryd yn bresennol ym mhob cyfarfod o'r grŵp. Ar hyn o bryd, mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal dros Zoom.

4.2.3 Wrth sefydlu'r Grŵp, roedd ei aelodaeth yn agored i unrhyw Gynghorydd sydd â diddordeb ym maes y Gymraeg. Er mwyn sicrhau bod cynrychiolaeth wleidyddol ar y Grŵp, cynigiwyd lle i un Cynghorydd o bob grŵp, os dymunant hynny. Manteisiodd sawl plaid/grŵp ar y cynnig a chafwyd enwebiadau unigol hefyd. Bydd aelodaeth y grŵp yn newid ychydig yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai eleni gan nad yw rhai o'r Aelodau yn ail-sefyll felly edrychwn ymlaen at groesawu Aelodau newydd sydd â diddordeb ym maes y Gymraeg i fod yn rhan o'r Grŵp y flwyddyn nesaf.

### 4.3 Datblygu Cysylltiadau gydag Ysgolion Cynradd y Sir

4.3.1 Mae'r Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg yn parhau i gysylltu'n rheolaidd gyda'r holl ysgolion cynradd ac uwchradd o fewn y sir. Ceir gwybodaeth am ychydig o'r gwaith isod.

### 4.4 Dathlu Dydd Miwsig Cymru 2022

4.4.1 Ar 4 Chwefror eleni, roedd hi'n Ddydd Miwsig Cymru. Er mwyn codi ymwybyddiaeth am y diwrnod, penderfynwyd creu rhestr chwarae fer gyda 5 cân Gymraeg i'r ysgolion ei rhannu gyda'r disgyblion a gofyn i'r disgyblion bleidleisio am eu hoff gân. Y bwriad oedd hyrwyddo Dydd Miwsig Cymru a'i gwneud hi ychydig yn haws i staff ysgolion drwy ddewis y caneuon drostynt. Cafodd y caneuon a dolen i'r holiadur SurveyMonkey eu gosod ar boster a'u rhannu gyda'r ysgolion dros e-bost. Cafwyd 374 ymateb i'r holiadur, gyda rhai ysgolion yn ateb fel dosbarth a rhai dosbarthiadau yn ateb fesul disgybl sy'n golygu bod y nifer o blant yng Nghonwy gafodd ddathlu Dydd Miwsig Cymru a mwynhau'r gerddoriaeth Gymraeg yn sicr o fod llawer yn uwch. Cafwyd adborth cadarnhaol gan yr athrawon ac roedden nhw'n gwerthfawrogi'r rhestr chwarae yn fawr. Braf hefyd oedd gweld ysgolion yn cymryd rhan wnaeth ddim cymryd rhan y llynedd. Cafwyd sylwadau gwych gan rai o'r disgyblion hefyd.

4.4.2 Rhannwyd y rhestr chwarae gyda dosbarthiadau dysgu Cymraeg mewnol y Cyngor hefyd. Cafodd y rhestr chwarae ei rhannu gyda'r dysgwyr drwy diwtor mewnol y Cyngor ac hefyd drwy'r sianel 'Dysgu Cymraeg' ar Teams.

### 4.5 Dathlu Diwrnod Shw Mae Su' Mae 2021

4.5.1 Diwrnod hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg yng Nghymru yw Diwrnod Shw Mae Su' Mae. Dathlwyd Diwrnod Shw Mae Su' Mae eleni drwy gynnwys neges fewnol i staff y Cyngor yn eu hannog i gychwyn sgwrs yn Gymraeg a chopi o boster 'Say it in Cymraeg' y Mentrau Iaith yn cynnwys geirfa Cymraeg i ddefnyddio yn y swyddfa, y caffi, y dafarn, y siop ac mewn cyfarfod. Rhoddwyd neges ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor hefyd. Cafodd neges e-bost ei hanfon at holl ysgolion cynradd ac uwchradd y sir yn egluro beth oedd y diwrnod a rhestr o syniadau o sut i ddathlu'r diwrnod yn yr ysgol.

### 4.6 Dathlu Dydd Gŵyl Dewi 2022

4.6.1 Er mwyn dathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni cynhaliwyd cystadleuaeth celf a chrefft a chystadleuaeth cerdyn post i blant ysgolion cynradd Conwy. Briff y gystadleuaeth celf a chrefft oedd creu darn o gelf 2 neu 3-d dim mwy nag maint A4 ar y thema 'Pen-blwydd yr Urdd yn 100'. Roedd y gystadleuaeth yn agored i ddisgyblion meithrin hyd at flwyddyn 4, ac roedd 2 gategori sef meithrin-flwyddyn 2 a blwyddyn 3-4. Briff y gystadleuaeth cerdyn post oedd i dynnu llun o'ch milltir sgwâr ac yna ysgrifennu cerdyn post (dim mwy na 200 o eiriau) at Dewi Sant i ddisgrifio'r llun. Roedd y gystadleuaeth yn agored i flynyddoedd 5 a 6 ac roedd 2 gategori i'r gystadleuaeth yma hefyd, ysgolion Cymraeg ac ysgolion Saesneg. Hysbysebwyd y 2 gystadleuaeth drwy neges e-bost at yr ysgolion i'w hanfon ymlaen at rieni. Cafwyd ymateb gwych i'r 2 gystadleuaeth gyda phlant o 10 ysgol wahanol yn cymryd rhan, 5 ysgol cyfrwng Cymraeg a 5 ysgol Saesneg. O'r 5 ysgol Saesneg roedd 3 yn ysgolion categori 4 (ysgol sy'n bennaf yn Saesneg ei chyfrwng ond gyda defnydd arwyddocaol o'r Gymraeg) a 2 yng nghategori 5 (ysgol sy'n bennaf Saesneg ei hiaith). Roedd hi'n braf gweld cymaint o ysgolion wedi cymryd rhan.

### 4.7 Teclyn Sgiliau Iaith a Negeseuon E-bost

4.7.1 Bu'r teclyn hwn ar waith ers dros bum blynedd bellach, ac mae'n parhau i fod yn llwyddiannus iawn. Drwy gymorth y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, mae'r Teclyn Sgiliau Iaith wedi'i gysylltu â'r rhestr staff sydd â chyfrif e-bost. Felly, os ydi aelod o staff yn ysgrifennu neges e-bost at aelod arall o staff y Cyngor, a bod yr aelod hwnnw o staff yn siarad Cymraeg yn rhugl, bydd neges yn ymddangos uwchben ei enw ar y neges yn dweud: "Rydw i'n siarad Cymraeg / I can speak Welsh".

4.7.2 Mae'r teclyn hwn wedi bod yn amhrisiadwy yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gan fod mwyafrif helaeth staff y Cyngor yn gweithio o gartref a llawer iawn o'n gwaith yn cael ei wneud dros e-bost. Mae'r teclyn o gymorth mawr i staff y Cyngor wrth gyfathrebu â staff eraill ac yn golygu ei bod hi'n haws o lawer gwybod beth yw sgiliau iaith y staff yr ydych yn cysylltu â nhw.

4.7.3 Ar ddiwedd y flwyddyn hon, penderfynwyd gofyn i staff ail-edrych ar eu hunan-asesiad i weld a oeddent wedi gwella eu sgiliau yn ystod y flwyddyn gan ein bod yn gwybod am nifer oedd wedi mynychu gwersi Cymraeg a sesiynau gloywi sgiliau yn ystod y flwyddyn.

### 4.8 Logo Iaith Gwaith/Brawddeg ar waelod e-bost

4.8.1 Mae staff sy'n medru'r Gymraeg yn cynnwys logo ar waelod eu llofnod e-bost i adael i gwsmeriaid a chydweithwyr wybod eu bod yn medru'r Gymraeg. Yn yr un modd, rydym wedi datblygu logo ar gyfer dysgwyr sy'n nodi 'Dw i'n dysgu Cymraeg'. Mae nifer fawr o ddysgwyr wedi cynnwys y logo hwn ar waelod eu llofnod e-bost.

4.8.2 Yn unol â'r Safonau, mae gennym frawddeg ar waelod pob neges e-bost ers gychwyn y Safonau yn nodi na fydd derbyn negeseuon yn Gymraeg yn peri unrhyw oedi wrth ymateb i'r neges. Sylweddolwyd drwy ymarferion siopwyr cudd nad oedd y frawddeg hon ar bob un cyfrif o eiddo'r Cyngor, felly drwy weithio efo'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, bellach mae'r neges honno'n rhan awtomatig o bob neges sy'n gadael pob un o gyfrifon e-bost y Cyngor gan sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Safon honno bob amser bellach.

### 4.9 Gwaith Cyfieithu

4.9.1 Dros y bedair blynedd diwethaf, mae nifer y geiriau ydym ni wedi'u cyfieithu ar gyfer Cyngor Conwy wedi parhau i gynyddu'n sylweddol. Erbyn hyn, rydym yn cyflogi 26 cyfieithydd ac ar fin penodi rhagor o gyfieithwyr yn sgil cynnydd yng ngwaith y gwasanaeth. Ers mis Gorffennaf 2020, rydym wedi cyfieithu o gwmpas 1 miliwn o eiriau bob mis, ac erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, rydym bellach yn cyfieithu'n nes at 1.2 miliwn o eiriau bob mis. Ym mis Tachwedd, cyfieithom y swm mwyaf erioed o eiriau yn ein hanes sef dros 1.4 miliwn o eiriau, ar draws y 6 sefydliad yr ydym yn cyfieithu iddynt, sy'n swm cwbl syfrdanol o eiriau.

### 4.10 Cyfieithu ar y pryd

4.10.1 Parhaodd ein cyfarfodydd i gyd yn rhai rhithwir dros Zoom yn ystod 2021-2022 hefyd a bu modd i'r Cynghorwyr, y swyddogion a'r aelodau o'r cyhoedd fu'n bresennol ym mhob cyfarfod gyfrannu at y cyfarfod yn eu dewis iaith, boed hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg, fel sy'n arferol yn ein cyfarfodydd i gyd wrth gwrs. Rhagorodd 2021-2022 ar brysurdeb 2020-2021 a dyma fu ein blwyddyn brysuraf o ran cyfieithu ar y pryd erioed. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor wedi cynnal nifer fawr o gyfarfodydd bob wythnos ar Zoom, boed hynny'n Bwyllgorau swyddogol y Cyngor, yn gyfweliadau am swyddi neu'n gyfarfodydd mewnol fel cyfarfodydd tîm ac ati. Bu nifer fawr o Gynghorwyr nad ydynt yn rhugl yn Gymraeg/nad ydynt yn siarad Cymraeg yn pleidleisio yn Gymraeg drwy ddweud "O blaid" / "Yn erbyn" bob amser, sydd yn wych i'w glywed.

## 4.11 Fforwm Iaith

4.11.1 Mae’r Cyngor yn rhan o Fforwm Iaith Conwy unwaith eto eleni ac mae’r fforwm yn parhau i gyfarfod yn chwarterol. Mae’r fforwm yn rhoi’r cyfle i bawb sy’n rhan ohono rannu arfer da a diweddaru ein gilydd o’r gwaith da sy’n cael ei wneud i godi proffil yr iaith yn lleol. Mae’r fforwm hefyd yn gyfle gwych i gyd-weithio gyda mudiadau/gwasanaethau eraill o fewn y sir ar amrywiaeth o brosiectau.

## 4.12 Gwersi Cymraeg

4.12.1 Mae staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi medru manteisio ar gynllun Dysgu Cymraeg arloesol, diolch i bartneriaeth gyda’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Dysgu Cymraeg Gogledd-Orllewin, sef darparwr y cyrsiau. Mae’r cynllun yn rhan o raglen ‘Cymraeg Gwaith’ y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae’r Cyngor yn falch iawn o gael y buddsoddiad enfawr hwn gan y Ganolfan er mwyn datblygu sgiliau Cymraeg staff y Cyngor. Mae’r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un eithaf gwahanol wrth gwrs, ac mae’r gwersi i gyd wedi bod ar-lein ers diwedd mis Mawrth y llynedd.

4.12.2 Nod y Cynllun Cymraeg Gwaith yw cryfhau sgiliau Cymraeg mewn gweithleoedd ledled Cymru ac mae’n cynnig hyfforddiant addas, hyblyg, sydd wedi ei ariannu'n llwyr.

4.12.3 Mae hyn wedi bod yn ddatblygiad cyffrous iawn, ac mae’r cyrsiau hyn wedi gwneud wedi gwneud gwahaniaeth mawr i ddarpariaeth gwersi Cymraeg i staff y Cyngor, yn enwedig cael Tiwtor Cymraeg yma’n llawn amser gyda ni. Mae cael tiwtor yn gweithio efo ni drwy’r wythnos, a chyfrif e-bost Cyngor Conwy wedi golygu bod mwy o gysylltiad rhyngddi hi a’r dysgwyr.

4.12.4 Cynhaliwyd 6 chwrs o dan arweiniad tiwtor ar lefel sylfaen a chanolradd, rhwng mis Ebrill 2021 a Mawrth 2022, a bu 42 aelod o staff yn mynychu’r cyrsiau hyn yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal â hyn cynhaliwyd 3 cwrs hunan-astudio ar lefel Mynediad 1 a 2, gyda 37 o ddysgwyr yn cofrestru a gyfer y cyrsiau hyn yn ystod y flwyddyn. Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith bod staff yn gallu parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg, sy’n galluogi’r Cyngor i weithredu’n ddwyieithog bob amser a chyfrannu mewn ffordd fechan, ond pwysig iawn, tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

4.12.5 Mae pob dosbarth yn y Cynllun yn cynnwys amrediad eang o staff o wahanol adrannau’r Cyngor, gyda nifer fawr o’r staff yn gweithio yng ngwasanaethau rheng-flaen y Cyngor fel y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaeth Addysg, Gwasanaeth Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau a’r Gwasanaethau Rheoleiddio. Mae pob dosbarth hefyd yn cynnwys unigolion o wahanol haenau o awdurdod o fewn y Cyngor.

4.12.6 Anogir y defnydd o’r Gymraeg yn y gweithle a thu hwnt yn gyson. Fel rhan o’r cynllun cefnogi dysgwyr bu’r tiwtor yn clustnodi amser penodol yn ystod y gwersi i drafod sut mae’r dysgwyr wedi defnyddio’r Gymraeg yn ystod y bythefnos flaenorol, a hefyd yn eu hannog i geisio adnabod cyfleoedd i ddefnyddio’r iaith yn ystod y bythefnos sydd i ddod. Gall y cyfleoedd hyn fod yn berthnasol UNAI yn y gwaith NEU tu hwnt i’r gweithle.

4.12.7 Yn ystod y flwyddyn, rhannwyd gwybodaeth efo’r dysgwyr am ddigwyddiadau Cymreig Cenedlaethol (Diwrnod Shw mae,Su’mae, Dydd Miwsig Cymru) a digwyddiadau cefnogi dysgwyr rhithwir a ddarparwyd gan Dysgu Cymraeg GO, Menter Iaith Conwy, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac eraill e.e. Gŵyl Ddarllen Amdani. Yn ogystal â hyn estynnwyd gwahoddiad i ddysgwyr Cymraeg Cyngor Conwy fynychu Sadyrnau Siarad, Cyrsiau Calan, Pasg, Haf a Chymraeg Gwaith Dysgu Cymraeg GO, Prifysgol Bangor yn ystod y flwyddyn.

## 4.13 Cynllun Sgwrsio

4.13.1 Mae manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio ac ymarfer Cymraeg yn holl bwysig er mwyn sicrhau datblygiad parhaus y dysgwyr sy'n rhan o'r cynllun Cymraeg Gwaith. Ddechrau 2021, fe wnaethom lansio Cynllun Siarad yn y Gwaith lle mae dysgwr ar lefel Canolradd yn cael ei baru efo siaradwr Cymraeg rhugl er mwyn sgwrsio'n anffurfiol. Ar hyn o bryd mae gennym 12 pâr sy'n cyfarfod yn rheolaidd fel rhan o'r Cynllun Sgwrsio. Mae hi wedi bod yn braf iawn gweld y dysgwyr yn ffynnu yn ystod y flwyddyn wrth iddyn nhw ddod i ben eu lefel bresennol o wersi Cymraeg.

## 4.14 Gwasanaethau'r Cyngor

**4.14.1 Prif dderbynfa** - Lleolir dwy brif dderbynfa/switsfwrdd y Cyngor ym mhrif swyddfeydd y Cyngor ym Modlondeb, Conwy a Choed Pella, Bae Colwyn. Dynodwyd pob un o swyddi'r prif derbynfeydd/switsfwrdd yn rhai Cymraeg hanfodol ac mae pob un o'r 12 aelod o staff (100%) sy'n gweithio yno yn ddwyieithog ac yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg lefel 4 neu uwch. Wrth gwrs, mae'r derbynfeydd wedi bod ar gau dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd y coronafeirwrs, ond mae'r staff hyn yn parhau i ddelio efo'r galwadau ffôn sy'n ein cyrraedd ar brif rif y Cyngor. Mae'r galwadau wrth gwrs wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd bod ein swyddfeydd ar gau.

### 14.14.2 Venue Cymru & Theatr Colwyn

14.14.2.1 Cafwyd sawl digwyddiad a gweithdai Cymraeg yn ystod y flwyddyn yn Venue Cymru megis Gofyn wrth Arbenigwr gyda James Lusted, Gweithdai Cymerwch Ran, Sgiliau Syrcas a Brahms i Fabis i enwi ond rhai.

### 14.14.3 Llyfrgelloedd

14.14.3.1 Yn ystod y flwyddyn, ehangwyd yr adnoddau digidol sydd ar gael i'n cwsmeriaid, a chynhaliwyd gweithgareddau a luniwyd ar gyfer y platfform digidol gan gynnwys ein gwefan newydd, ac ehangu'r rhyngweithio ar y safleoedd hyn. Cynyddwyd y llwyfannau lle ceir e-lyfrau ac e-lafar Cymraeg. Mae ystod ehangach o deitlau ar gael drwy'r Gymraeg ar ein e-blatfform, gan gynnwys e-gomics a chylchgronau ac mewn cydweithrediad â'r sector llyfrgelloedd cyhoeddus gyda'r Asiantaeth Ddarllen, Cyngor Llyfrau a gweisg Cymru, mae'r ddarpariaeth yn parhau i ehangu. Rydym yn parhau i hybu ein cynnig llyfrau mewn fformatau hygyrch hefyd drwy brosiect llyfrau print bras yn y Gymraeg a llyfrau llafar. Rydym yn cyd-weithio â Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru hefyd er mwyn sicrhau bod nifer o deitlau ar gael i'r darllenwyr ym mha bynnag fodd maent yn dymuno darllen yn y Gymraeg.

14.14.3.2 Mae llu o ddigwyddiadau wedi cael eu cynnig yn ddwyieithog neu'n Gymraeg yn ein llyfrgelloedd megis sesiynau crefft, amseroedd stori ac ymgyrchoedd penodol, a gwaith maes gan gynnwys amseroedd stori wythnosol yn yr ardd yn Sŵ Fynydd Gymreig Gogledd Cymru drwy'r haf.

14.14.3.3 Rydym wedi medru cynyddu ein gweithgarwch ymgysylltu â dysgwyr Cymraeg. Yn ein llyfrgell newydd yn Glasdir, Llanrwst er enghraifft, mae grŵp tecstilau wythnosol ar gyfer Dysgwyr Cymraeg yn arbennig, ac mae dosbarthiadau pellach, megis ffotograffiaeth ddigidol a threftadaeth ar y gweill hefyd.

14.14.3.4 Mewn cydweithrediad â'r Canolfannau Teulu, darparwyd llyfrau Cymraeg a Saesneg i deuluoedd ac amser stori wythnosol ac mewn person unwaith codwyd cyfyngiadau'r pandemig. Cafwyd adborth gadarnhaol iawn, gyda theuluoedd lleol a thu hwnt yn mwynhau gwrando ar y straeon yn y Gymraeg.

14.14.3.5 Mae sesiynau Ti a Fi wedi ail ddechrau, ac mae staff y llyfrgelloedd wrth eu bodd yn cael darparu sesiynau amser stori i blant bach eto, i gynyddu cyfleoedd llythrennedd, iaith a chymdeithasol yn ein cymunedau. Yn ogystal â hyn, eleni, yn sgil prosiect 'Puffins', mae amser stori wedi bod yn 'dairieithog' ar adegau gan fod y storïwr yn defnyddio iaith arwyddo gyda'r plant bach ar gyfer storïau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

14.14.3.6 Bu'r staff yn weithgar gyda'r cynllun cenedlaethol Gaeaf Llawn Lles. Conwy oedd yn arwain un o'r digwyddiadau cenedlaethol i bobl ifanc dros Zoom gyda'r awdur Elgan Rhys a chyd-awduron ifanc Tomos Jones a Leo Drayton.

14.14.3.7 Mae'n darpariaeth hefyd wedi'i ehangu yn sgil ariannu prosiect i gynnwys 3 gweithdy sgwennu gyda Manon Steffan Ros yn ein llyfrgell newydd yn Glasdir, roeddent yn boblogaidd iawn gyda'r bobl ifanc ac yn fodd gwerthfawr i ni gysylltu â'n defnyddwyr ifanc yn defnyddio themâu lleol a'r adnoddau newydd yn y llyfrgell.

14.14.3.8 Mae'r plant ifanc iawn hefyd wedi manteisio ar sesiynau Brahms i fabis, gyda cherddorion Cymraeg yn darparu cerddoriaeth fyw fodern a chlasurol, hwiangerddi a chaneuon traddodiadol Cymreig

14.14.3.9 Yn ein llyfrgell newydd yn Glasdir, cyfansoddodd Myrddin ap Dafydd yr englyn hon ar gyfer ein llyfrgell newydd. Mae llyfrgell y plant yn Glasdir wedi'i dylunio yn defnyddio themâu o gyfrol Myrddin ap Dafydd ac wedi'i darlunio gan Dory Spikes, Stori Cymru.

*I lyfrgell newydd Llanrwst ar lan hen afon Conwy*

*Mae hen afon sy'n cronni – ein geiriau'n*
*Llyfr agored inni;*
*Yn ei dŵr, mae blas stori*
*A chell wen sydd uwch ei lli.*
*Myrddin ap Dafydd*

14.14.3.10 Fe drefnodd Archifau Conwy amrywiol sesiynau yn Gymraeg i blant yn ystod mis Mawrth 2022 a chafwyd ymateb gwych iddyn nhw wrth i 217 o blant eu mynychu.

### 14.14.4 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

4.14.4.1 Cawsom flwyddyn gyffrous iawn o ran y Gymraeg mewn Addysg – dyma ychydig o'r prif bwyntiau isod.

4.14.4.2 **Diweddariadau 2021-2022:**

- Cynnal trafodaethau efo rhanddeiliaid allweddol i gynllunio drafft CSGA 2022-32
- Cefnogaeth gan Cefin Campbell a Meirion Prys Jones ar ran LIC wrth gynllunio'r cynllun drafft.
- Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus 8 Tachwedd 2021 – 4 Ionawr 2022

- Cyflwyniadau i rannu'r cynllun ac ymatebion yr ymgynghoriad gydag aelodau Cabinet a Phwyllgor Craffu Addysg
- Tîm Ymgynghorol y Gymraeg a chynrychiolaeth o ysgolion, plant a rhieni Conwy yn rhan o waith marchnata LlC ar y Gymraeg a manteision dwyieithrwydd
- Cyflwyniadau ar gynnydd i ESTYN
- Tîm Ymgynghorol y Gymraeg a Chanolfan Iaith Conwy yn astudiaeth achos yn adroddiad ESTYN ar Addysg drochi
- Cynllunio /diweddaru gwefan cyhoeddus Conwy gyda gwybodaeth am Gymraeg mewn Addysg yn Sir Conwy
- Parhau gyda Chynllun Trochi Creuddyn
- Gyda grant LlC ar gyfer Trochi canol a hwyr wedi cynnal prosiectau trochi hwyr gydag Ysgol Dyffryn Conwy a Creuddyn.
  Trochi canol (Blwyddyn 3) gydag ysgolion dalgylch Ysgol Y Creuddyn.
  Hyn yn cyd-fynd â cheisiadau grant cyfalaf.
- Siarter Iaith a chynllun Cymraeg Campus wedi parhau yn holl ysgolion cynradd y sir. Ysgol Babanod Glangele wedi cyflawni gwobr Arian Cymraeg Campus.
- Ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig ac unedau cyfeirio wedi derbyn cyllid i gyd-weithio ar brosiectau i gefnogi'r defnydd anffurfiol ac i ddatblygu'r gweithlu o fewn clystyrau.
  - Prosiectau Den y Dreigiau ar waith ac yn dwyn ffrwyth yn yr ysgolion.
  - Cafwyd cyflwyniadau ysbrydoledig gan Mererid Hopwood a Myrddin Ap Dafydd i'r ddau glwstwr i'n cynorthwyo ar y daith gyda'r Cwricwlwm i Gymru.
  - targedu agweddau o fewn Cymraeg Campus a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu.
  - Cafwyd cyd-weithio i bontio cyfnodau allweddol, cynllunio'r iaith yn drawsgwricwlaidd, datblygu hyfedredd ieithyddol y gweithlu, adnoddau i gefnogi datblygiad y Gymraeg
- Hyfforddiant i'r gweithlu cynradd Cymraeg ar dy Dafod a Chynllun Sabothol

14.14.4.3 **Diweddariad o ran Categoreiddio Ysgolion yn ôl Darpariaeth y Gymraeg**

- Gohebiaeth yn cael ei anfon at Benaethiaid a chyrff llywodraethu yn egluro'r newidiadau i gategorïau ysgolion yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, CSGA Conwy a Chwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022.
- Cylchredwyd holiadur ar Google forms i bob pennaeth i'w lenwi gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr yn nodi eu categori cyfredol ac ystyriaeth categori newydd, prif heriau, cefnogaeth sydd ei angen ar yr ysgol a chefnogaeth ac/neu adnoddau y gellir eu cynnig
- Cynnal trafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol wrth gynllunio CSGA Conwy 2022-32. Ystyried a thrafod sefyllfa gyfredol, prif heriau, cefnogaeth ac anghenion hyfforddiant pob ardal gan ystyried effaith Covid-19 hefyd.
- Rhannu gwybodaeth gydag Aelodau Craffu a Chabinet / Llywodraethwyr y sir /Penaethiaid
  - yn egluro'r newidiadau yng nghategorïau ieithyddol ysgolion o Fedi 2022
  - amlygu pwysigrwydd adeiladu ar eu darpariaeth wrth lunio eu gweledigaeth ar gyfer Cwricwlwm i Gymru
  - ystyried cynllunio Datblygiad Proffesiynol Parhaus y gweithlu o ran sgiliau'r Gymraeg

**14.14.5 Diweddariadau am Creu Conwy 2021-2026.**

14.14.5.1 Ym mis Tachwedd 2021, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Creu Conwy, Creu Sbardun - Strategaeth Ddiwylliannol ar gyfer Sir Conwy 2021 - 2026. Rydym yn falch i gyhoeddi ein Strategaeth Ddiwylliannol newydd i Sir lle mae diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg yn ffynnu. Mae'r syniadau yn y strategaeth yn deillio o sgyrsiau a gynhaliwyd gyda sefydliadau ac unigolion ar draws y rhanbarth ers 2019 a dymunwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y strategaeth derfynol. Yn ystod hanner cyntaf 2022, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cefnogi creu cynlluniau gweithredu i gyflawni'r strategaeth, gan gydweithio gyda phartneriaid a'n cymunedau.

**14.14.6 Gweithdai Caru Celf**

14.14.6.1 Cynhaliwyd cyfres o weithdai ar y cyd gyda'r Urdd yng Nghanolfan Diwylliant Conwy yn ymateb i'r thema 'Môr a Mynydd' dan arweiniad artist lleol Jŵls Williams. Roedd y gweithdai yn agored i blant blynyddoedd 4, 5 a 6. Cafwyd ymateb wych i'r sesiynau.

**14.14.7 Mwy na Geiriau**

14.14.7.1 Mae hyfforddiant Mwy Na Geiriau ar gael i staff gofal cymdeithasol mewnol ac allanol, gan gynnwys y sector gwirfoddol. Mae'r cyrsiau hyn yn cael eu cynnal bob mis ac mae lle i 18 o bobl ar bob cwrs. Ar ddiwedd y sesiwn, gofynnir i'r mynychwyr werthuso eu dealltwriaeth ehangach o bwysigrwydd yr iaith, y diwylliant a'r cymunedau. Mae'r hyfforddiant yn darparu gwell dealltwriaeth a gwybodaeth am bwysigrwydd y 'cynnig gweithredol' a'n dyletswydd ni i ddarparu hyn.

14.14.7.2 Adborth gan fynychwyr:

- *Mae fy marn wedi newid, toeddwn i ddim yn sylweddoli pa mor bwysig oedd hyn a pha effaith mae'n ei gael ar les person, felly dw i am drio defnyddio fy app Duolingo i ddysgu ychydig eiriau a'u hymgorffori i mewn i'm swydd a cheisio cael yr hyder i'w ddefnyddio*.

- *Dw i am gael bathodyn i adael i bobl wybod fy mod yn siarad Cymraeg, rhag ofn y byddai'n well ganddyn nhw siarad Cymraeg efo fi.*

## 4.15 Sgiliau Iaith Gymraeg Staff y Cyngor

4.15.1 Ers datblygu teclyn sy'n ymddangos ar gyfrifiaduron pawb sy'n medru casglu gwybodaeth am sgiliau ieithyddol y staff gyda'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, bu gwelliant yng nghywirdeb cofnodi ystadegau sgiliau ieithyddol staff. Bellach, mae bob aelod o staff y Cyngor yn medru defnyddio'r teclyn hwn, ac rydym, gyda chymorth y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wedi casglu gwybodaeth am bob aelod o staff erbyn hyn, gan gynnwys y rhai nad ydynt â mynediad i'r fewnrwyd. Ac eithrio ysgolion, a staff sy'n gweithio i awdurdodau eraill, mae'r awdurdod yn cyflogi 1,787 o staff parhaol. Dyma fanylion sgiliau iaith Gymraeg y 1,787 o staff sydd wedi llenwi gwybodaeth am eu sgiliau iaith Gymraeg:

**Sgiliau Iaith Gymraeg Staff y Cyngor:**

| **Gwrando / Siarad** | | | |
|---|---|---|---|
| Lefel | | Nifer y staff | % |
| Lefel 0 | | 376 | 21 |
| Lefel 1 | DYSGU CYMRAEG | 550 | 30 |
| Lefel 2 | | 197 | 11 |
| Lefel 3 | | 136 | 8 |
| Lefel 4 | RHUGL | 198 | 11 |
| Lefel 5 | | 330 | 19 |
| | | | |
| **CYFANSWM** | | **1,787** | |

| **Darllen / Deall** | | | |
|---|---|---|---|
| Lefel | | Nifer y staff | % |
| Lefel 0 | | 428 | 24 |
| Lefel 1 | DYSGU CYMRAEG | 519 | 30 |
| Lefel 2 | | 190 | 11 |
| Lefel 3 | | 132 | 7 |
| Lefel 4 | RHUGL | 188 | 11 |
| Lefel 5 | | 315 | 17 |
| | | | |
| **CYFANSWM** | | **1,787** | |

| **Ysgrifennu** | | | |
|---|---|---|---|
| Lefel | | Nifer y staff | % |
| Lefel 0 | | 565 | 32 |
| Lefel 1 | DYSGU CYMRAEG | 471 | 27 |
| Lefel 2 | | 208 | 12 |
| Lefel 3 | | 132 | 7 |
| Lefel 4 | RHUGL | 143 | 8 |
| Lefel 5 | | 253 | 14 |
| | | | |
| **CYFANSWM** | | **1,787** | |

4.15.2 Mae staff y Cyngor wedi defnyddio'r teclyn ar y fewnrwyd i nodi eu sgiliau iaith Gymraeg gan ddefnyddio'r tabl a welir ym Mholisi'r Gymraeg.

4.15.3 O'r tabl, gwelir bod 30% wedi nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl (Lefel 4 a 5) eleni.

4.15.4 Gellir gweld hefyd, bod cynnydd yn nifer y staff sy'n medru defnyddio ychydig ar eu Cymraeg wedi cynyddu ar lefel 1 (o 27% y llynedd i 30% eleni), ac hefyd cynnydd o 5% o 25% y llynedd i 30% eleni yn y rhai sy'n medru darllen a deall rhywfaint o Gymraeg. Mae llawer o'r rheiny oherwydd y cyrsiau Cymraeg y bu staff yn eu dilyn yn ystod y flwyddyn.

4.15.5 Gellir gweld y dadansoddiad fesul gwasanaeth isod. Mae'n anodd cymharu'n hollol gywir eleni oherwydd dyfodiad dau wasanaeth newydd, gyda nifer o wasanaethau wedi dod yn un, ac ambell is-adran wedi symud o dan gwasanaeth gwahanol yn sgil yr ad-drefniad.

**Sgiliau Cymraeg Staff y Cyngor fesul gwasanaeth:**

| **Gwasanaeth** | **Cyfanswm y staff** | **Nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (Lefelau 4 a 5)** | **Newid canran o 2020-21?** | **Nifer y staff sy'n Dysgu Cymraeg (Lefelau 1, 2 a 3)** | **Newid canran o 2020-21?** | **Nifer y staff sydd â dim gallu Cymraeg (Lefel 0)** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau Dynol a Gwelliant Corfforaethol | 41 | 6 (15%) | Gwasanaeth newydd, methu cymharu | 25 (61%) | Gwasanaeth newydd, methu cymharu | 10 (24%) |
| Adran y Prif Weithredwr | 6 | 1 (17%) | Dim newid | 5 (83%) | +16% | 0 |
| Addysg | 138 | 67 (49%) | -1% | 56 (40%) | +2% | 15 (11%) |
| Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | 227 | 50 (22%) | -6 | 124 (55%) | +7% | 53 (23%) |
| Archwilio Mewnol | 13 | 1 (8%) | Dim newid | 10 (77%) | +18.5 | 2 (15%) |
| Economi a Diwylliant | 246 | 86 | Gwasanaeth newydd, methu cymharu | 127 | Gwasanaeth newydd, methu cymharu | 33 |
| Gwasanaeth Ariannol Corfforaethol | 46 | 10 (22%) | -2% | 26 (56%) | +7 | 10 (22%) |
| Gwasanaethau Cymdeithasol – Oedolion | 521 | 132 (26%) | -3% | 246 (47%) | -2% | 143 (27%) |
| Gwasanaethau Cymdeithasol – Plant | 201 | 49 (24%) | +3% | 83 (41%) | +3% | 69 (35%) |
| Refeniw a Budd-daliadau | 66 | 19 (29%) | Dim newid | 35 (53%) | +7% | 12 (18%) |
| Rheoleiddio a Thai | 145 | 33 (23%) | -3% | 97 (67%) | +9% | 15 (10%) |
| Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol | 64 | 16 (25%) | Dim newid | 36 (56%) | +7% | 12 (19%) |
| Y Gyfraith a Llywodraethu | 73 | 58 (79%) | +0.5% | 13 (18%) | Dim newid | 2 (3%) |
| **CYFANSWM** | **1,787** | **528 (30%)** | | **883 (49%)** | | **376 (21%)** |

## 4.16 Recriwtio - Swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn

4.16.1 Mae pob swydd sy’n cael ei hysbysebu gan y Cyngor yn cynnwys dynodiad Cymraeg yn hanfodol neu Gymraeg yn ddymunol, ond ymhelaethir ar y brawddegau hyn er mwyn i’r sawl sy’n bwriadu ymgeisio am y swydd wybod yn union i ba raddau mae angen sgiliau Cymraeg. Mae’r brawddegau hyn yn cael eu teilwra wrth hysbysebu ac felly’n benodol i’r swydd sy’n cael ei hysbysebu.

4.16.2 Mae pob swydd sy’n cael ei hysbysebu yn cael ei hanfon at Reolwr y Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu er mwyn dod i benderfyniad a ddylid hysbysebu’r swydd fel un lle bo sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd neu lle bo sgiliau Cymraeg yn ddymunol. Mae sawl agwedd ar y swydd yn cael ei hystyried fel dyletswyddau’r swydd ynghyd â faint o siaradwyr Cymraeg sy’n gweithio yn y tîm dan sylw.

4.16.3 Dyma fanylion am nifer/canran y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol; a nifer/canran y swyddi ym mhob categori lle penodwyd siaradwyr Cymraeg.

| **Dynodiad** | **Nifer a % fesul categori iaith** | **Nifer a % y swyddi lle penodwyd siaradwyr Cymraeg** |
|---|---|---|
| Hanfodol | 33% - 176 swydd | O’r 163 swydd a recriwtiwyd iddynt, penodwyd siaradwyr Cymraeg (lefel 4 ac uwch) i bob un heblaw am un ohonynt (99%). Yn achos yr un swydd lle na ddilynodd y rheolwr y drefn gywir, sef penodi rhywun gyda sgiliau ar lefel 4 neu 5, rhoddwyd camau mewn grym i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto drwy atgoffa rheolwyr o’r broses ac hefyd, anfonir neges i atgoffa am y drefn wrth gymeradwyo pob swydd Cymraeg hanfodol. Gan mai dyma’r unig achos mewn blynyddoedd maith lle digwyddodd hyn, rydym yn ffyddiog mai camgymeriad oedd hyn ar ran y rheolwr, ac na fydd yn digwydd eto.<br><br>Hyd yn hyn, ni phenodwyd unrhyw un i 13 o’r swyddi hyn gan fod y broses recriwtio yn parhau. |
| Dymunol | 67% - 354 swydd | O’r 326 swydd y recriwtiwyd iddynt, roedd 201 swyddog yn siarad Cymraeg yn rhugl (62%).<br><br>Hyd yn hyn, ni phenodwyd unrhyw un i 28 o’r swyddi hyn gan fod y broses recriwtio yn parhau. |
| **CYFANSWM YM MHOB DYNODIAD** | 530 swydd | Felly, o’r 489 swydd y recriwtiwyd iddynt, penodwyd cyfanswm o 363 o siaradwyr Cymraeg rhugl, sef canran o 74%. |

**4.17 Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd** – Gwelir isod fanylion am nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant yn Gymraeg i lefel o Gymhwyster penodol a nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn ystod 2021-2022.

**4.17.1 Cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle**

| **Lefel y Cwrs** | **Math o gwrs** | **Addas ar gyfer** | **Manylion** | **Cais** | **Cyfanswm wnaeth fynychu** |
|---|---|---|---|---|---|
| Mynediad 1 | Hunan-astudio | Y rhai sy'n dymuno dysgu Cymraeg | Cwrs rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022 ar gyfer pobl sy'n dymuno dysgu Cymraeg. Roedd y dosbarthiadau yn gyfan gwbl ar-lein | Dewis personol y staff | 35 |
| Mynediad 2 | Hunan-astudio | | | | 7 |
| Sylfaen 1 a 2 | Wyneb yn wyneb (ar-lein) | | | | 8 |
| Sylfaen 1 a 2 | Cyfunol | | | | 14 |
| Canolradd 1 a 2 | Wyneb yn wyneb (ar-lein) | | | | 15 |
| **CYFANSWM Y NIFER WNAETH FYNYCHU'R CWRS** | | | | | **79** |

**4.17.2 Amrywiol Gyrsiau a Gynigwyd /Gynhaliwyd yn Gymraeg**

| **Cwrs a gynigwyd** | **Sawl cwrs gafodd ei gynnig yn Gymraeg?** | **Cyfanswm wnaeth fynychu** |
|---|---|---|
| Recriwtio Diogel i Reolwyr<br>(Safon 128, (a) recriwtio a chyfweld) | 1 | Ni chafodd ei gynnal oherwydd nad oedd unrhyw un wedi cofrestru. |
| Rheoli'r Broses Gwerthuso Staff<br>(Safon 128, (b) rheoli perfformiad) | 0 | Ni chafodd ei gynnal oherwydd y coronafeirws. |
| Rheoli'r Broses Ddisgyblu<br>(Safon 128, (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu) | 0 | Ni chafodd ei gynnal oherwydd y coronafeirws. |
| Iechyd a Diogelwch Corfforaethol<br>(Safon 128, (dd) iechyd a diogelwch) | 1 | Ni chafodd ei gynnal oherwydd nad oedd unrhyw un wedi cofrestru. |

### 4.17.3 Sesiwn Gyflwyno Gorfforaethol / Ymwybyddiaeth Iaith

| **Dyddiad** | **Addas ar gyfer** | **Manylion** | **Cais** | **Cyfanswm wnaeth fynychu** |
|---|---|---|---|---|
| Amrywiol ddyddiadau yn ystod y flwyddyn | Aelodau newydd o staff. | Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, oherwydd nad yw'r hyfforddiant wyneb i wyneb wedi'i gynnal yn ystod y coronafeirws, mae pob aelod o staff newydd wedi cael pecyn cyflwyno gyda dolenni i'r cyflwyniadau fydden nhw'n eu cael fel arfer yn y Cyflwyniad Corfforaethol. Mae'r pecyn yn cynnwys cyflwyniad gan y Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu am weithredu'r Safonau'r Gymraeg, y Cymorth a'r Gefnogaeth sydd ar gael, defnyddio'r Gymraeg yn fewnol ac ymwybyddiaeth a hanes yr iaith **(Staff o amrywiol wasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)** | Gorfodol i bob aelod newydd o staff sy'n cychwyn gweithio gyda'r Cyngor | 309 |
| **CYFANSWM Y NIFER WNAETH FYNYCHU'R CWRS** | | | | **309** |

4.17.4 Gwelir o'r ystadegau uchod bod 309 o aelodau staff wedi cael gwybodaeth ymwybyddiaeth iaith eleni.

## 5.0. Cadw Cofnodion

### 5.1 Cwynion

5.1.1 Mae modd i'r cyhoedd wneud cwyn drwy wefan y Cyngor neu'n uniongyrchol at Reolwr y Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu neu'r Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg. Bydd pob cwyn yn cael ei chofnodi ar system gwynion y Cyngor.

5.1.2 Ni chafwyd yr un gŵyn yn ystod 2021-2022.

**5.1.3 Cwynion oedd wedi'u hanfon at Gomisiynydd y Gymraeg**

5.1.3.1 Mae modd i'r cyhoedd gwyno'n uniongyrchol efo Comisiynydd y Gymraeg hefyd. Eleni, ni chafwyd yr un ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg.

## 6.0 Casgliadau ac argymhellion/camau gweithredu

6.1 Er bod y ddwy flynedd ddiwethaf yn rhai gwahanol a dweud y lleiaf, rydym yn falch iawn nad yw hyn wedi amharu o gwbl ar ein gwasanaeth i'r cyhoedd.

6.2 Bu'n hynod o braf gweld cymaint o ddatblygiadau a llwyddiannau yn mynd o nerth i nerth yn ystod y flwyddyn fel Grŵp Llywio'r Gymraeg, datblygu cysylltiadau ag ysgolion cynradd y sir, y gwersi Cymraeg a'r Cynllun Sgwrsio.

6.3 Bu hefyd yn wych gweld gymaint o ddigwyddiadau yn Gymraeg yn cael eu cynnal gan ein gwasanaethau, gyda llawer mwy ar y gweill dros y flwyddyn nesaf.

6.4 Ar ben hyn, roedd hi'n wych gweld cymaint o gynnydd yn ein gwaith cyfieithu a chyfieithu ar y pryd yn ystod y flwyddyn.

6.5 Rydym yn edrych ymlaen at barhau gyda'r gwaith gwych a gyflawnwyd eleni a rhoi ambell fenter newydd ar waith yn ystod y flwyddyn nesaf.